**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee on the Residential Outdoor Education (Wales) Bill**

**ROE 15**
**Ymateb gan: Comisiynydd Plant Cymru**
**Response from: Children's Commissioner for Wales**

---

**Ymgynghoriad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd: Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

Diolch am y gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth i'r ymgynghoriad cyfnod 1 ar y Bil uchod.
Fe ges i gyfle i gwrdd â'r Aelod sy'n ei noddi, Sam Rowlands AS, wrth i'r Bil gael ei lunio, ac rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu tystiolaeth ffurfiol ar y pwnc hwn.

Yn benawdau, rwyf wedi cymryd y pwyntiau allweddol o gylch gorchwyl yr Ymgynghoriad, yn ogystal â'r cwestiynau penodol a ofynnodd y Pwyllgor i mi.

**Egwyddorion y Bil a'r angen amdano**

I wneud sylw cyffredinol trosfwaol, mae'r Bil hwn yn gam cadarnhaol at sicrhau hawl gyfartal i bob plentyn fwynhau manteision rhaglen addysg awyr agored breswyl.

Roedd y Memorandwm Esboniadol a thystiolaeth a dderbyniwyd eisoes gan y Pwyllgor yn nodi manteision clir ac agweddau i'w hystyried, a byddaf yn mynd trwy'r rheiny'n fanylach o dan adrannau perthnasol yr ymateb hwn.

Pwysigrwydd y Bil yma creu **hawl** i bob plentyn a pherson ifanc gael mynediad at addysg awyr agored breswyl yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae hyn yn fwy o weithgaredd ychwanegol neu gyfoethogi. Mae hynny'n creu loteri fawr o ran cod post, a hynny o ran a yw eich ysgol yn cynnig gweithgareddau o'r fath neu beidio, ac a ydyn nhw'n fforddiadwy i'w mynychu neu beidio.

Y gwir amdani yw na fydd llawer o blant yn cael y profiad yma heb fod y Bil yma yn ei le.

**Canlyniadau anfwriadol**

Presenoldeb:

- Rwy'n gallu deall i ryw raddau pam mae'r cynnig yn nodi na fyddai hon yn elfen orfodol, gan fod pryderon ynghylch gallu pob plentyn i ymgysylltu â dysgu yn yr awyr agored. Fodd bynnag, nid wyf yn sicr i ba raddau mae hyn yn gallu cyd-fynd â rhannau eraill gorfodol o'r cwricwlwm, nad oes modd dewis eu hosgoi. Mae elfennau gorfodol y cwricwlwm, yn gwbl briodol, yn feysydd y dylai pob dysgwr ymwneud â nhw a dod i gysylltiad â nhw oherwydd eu bod yn elfennau craidd o'r dysgu. Os penderfynir bod addysg awyr agored breswyl yn elfen orfodol, dylai fod yn orfodol i bawb.
- Efallai mai'r rhai sy'n ansicr ynghylch mynychu hyn fydd y rhai mewn gwirionedd sy'n debygol o elwa fwyaf o'i gyflwyno, er enghraifft y rhai sydd ag anawsterau iechyd meddwl neu orbryder, y rhai ag anghenion ychwanegol a/neu'r rhai o gefndir difreintiedig. Fy mhryder i fyddai, os nad yw hon yn hawl orfodol i bawb, y gallai pwysau gael ei roi ar deuluoedd fel y rhai sydd â phlant anabl i dynnu nôl o'r ymweliad er mwyn osgoi gorfod cael hyd i ddarpariaeth sy'n cyflawni anghenion yr *holl* blant.

Addysg Heblaw am yn yr Ysgol (EOTAS):

- Ar nodyn cysylltiedig, roeddwn yn siomedig i weld bod bwriad i anghymhwyso hyn yn achos plant sy'n cyrchu darpariaeth EOTAS. Mae tua hanner y rhai sy'n mynychu EOTAS yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ac eto, rwy'n teimlo mai'r dysgwyr hyn allai elwa fwyaf o

ddysgu tu allan i amgylchedd y dosbarth, a bydd gan fwyafrif mawr anghenion dysgu ychwanegol ar ryw lefel.

- Er bod *modd* anghymhwyso rhai rhannau o'r cwricwlwm ar gyfer EOTAS, fyddwn i ddim yn annog hynny fel rhagdybiaeth na dull gweithredu safonol. Yn achos rhai, fel y rhai sydd wedi cael trafferth gyda phresenoldeb yn yr ysgol/gorbryder, os ydyn nhw'n teimlo'n gyfforddus yn y lleoliad, ni ddylai fod rheswm pam na allan nhw gael mynediad i gwricwlwm llawn.
- Rwy'n pryderu y bydd y neges nad yw disgyblion EOTAS i fod i dderbyn elfennau gorfodol y cwricwlwm yn dod yn safbwynt derbyniol yn hytrach nag opsiwn i'w ddefnyddio o dan amgylchiadau penodol, gan edrych ar bob achos yn unigol.
- Amlygodd yr ymgynghoriad cychwynnol, ymhlith pethau eraill, y byddai'r rhai sy'n cael trafferth ymdopi mewn dosbarth yn debygol o elwa'n arbennig wrth i'r hawl hon gael ei chyflwyno.
- Carwn annog y Pwyllgor i ystyried newid i'r Bil, os bydd yn symud ymlaen, i gynnwys darpariaeth EOTAS oddi mewn i'r elfen orfodol o'r cwricwlwm yn hyn o beth.

<u>Gyrfa ysgol:</u>

- Rwy'n nodi bod y Memorandwm Esboniadol yn sôn am yr ystyried a fu ynghylch a ddylid pennu oed neu flwyddyn ysgol fel bod pob plentyn yn derbyn hyn ar yr un adeg. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn gymysg, ac nid oes pwynt optimwm ar gyfer sicrhau'r budd mwyaf, felly gallaf ddeall pam na wnaed hynny'n bwynt penodol yn y ddeddfwriaeth.
- Bydd angen i'r canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf, os daw i rym, nodi sut dylid rheoli hyn yng nghyd-destun y gallu i rannu'r hawl ar draws teithiau lluosog, cyhyd â bod y cyfanswm llawn o 5 diwrnod a 4 nos yn cael ei gyrraedd. Yn benodol, gan fod modd rhannu'r hawl ar draws mwy nag un ymweliad, bydd angen sicrhau bod ysgolion mewn clwstwr ac ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgolion uwchradd yn trafod/alinio eu dulliau gweithredu er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael mynediad i'w hawl lawn.

<u>Gofal a darpariaeth i'r rhai sydd ddim yn mynychu</u>

- Os bydd rhai pobl ifanc o'r grŵp blwyddyn ddim yn mynychu'r cwrs, bydd angen sicrhau darpariaeth ar eu cyfer yn ôl yn yr ysgol. Os yw'r athrawon ar daith gyda'r disgyblion, bydd angen gofal cyflenwi, ond bydd angen trefnu ffordd o barhau i gynnig cefnogaeth i'r disgyblion hynny sydd ddim yn mynychu'r taith yn ystod yr wythnos honno.

**Rhwystrau**

Er na fydd rhaid i rieni a theuluoedd dalu am yr ymweliad ei hun, bydd angen i bob plentyn sy'n mynd ar yr ymweliad sicrhau cyfarpar addas i fedru gwneud hynny, er enghraifft dillad sy'n gwrthsefyll dŵr ac esgidiau addas.

Y prif bryder a gododd plant gyda'm swyddfa fel rhan o'n harolwg cenedlaethol graddfa fawr oedd costau byw a thlodi. I rai, mae hynny'n mynd mor bell â cholli prydau bwyd, ac fe ddywedodd un person ifanc eu bod hyd yn oed wedi gorfod stwffio papur i mewn i'r tyllau yn yr unig bâr o esgidiau oedd ganddyn nhw. Felly byddai'r costau ychwanegol posibl hyn yn rhwystr sylfaenol i rai pobl ifanc hyd yn oed ystyried mynychu.

Gofynnwyd i rieni a gofalwyr faint maen nhw'n pryderu ynghylch talu am amrywiol bethau o dan adran costau byw yr arolwg. Yn fwyaf cyffredin, oedd rhieni a gofalwyr yn ymateb bod nhw 'weithiau', 'yn aml' neu 'drwy'r amser' yn pryderu am anghenion sylfaenol. O'r rhieni a'r gofalwyr a

ymatebodd i'r arolwg, roedd 56.5% yn pryderu ynghylch talu am deithiau ysgol[9]. Er bod pryderon hefyd ynghylch talu am wisg ysgol, adnoddau i'r ysgol fel deunydd ysgrifennu a chinio ysgol, teithiau ysgol oedd yr ymateb a gafwyd amlaf.

Roedd 68.5% o rieni hefyd yn pryderu ynghylch talu am deithiau a diwrnodau allan i'w plant, ac roedd 66.6% yn pryderu ynghylch talu am hobïau a gweithgareddau plant, felly mae rhwystrau amlwg yn wynebu rhai teuluoedd a'u plant o ran cael mynediad at ystod o weithgareddau chwaraeon, hamdden a llesiant ar hyn o bryd.

Roedd gweithwyr proffesiynol hefyd yn pryderu am bwysau costau ar y teuluoedd maen nhw'n gweithio gyda nhw. O ran y costau cysylltiedig â'r ysgol, teithiau ysgol oedd ar y brig, gydag 86.2% yn pryderu am hyn.

Fe wnaethon ni ofyn i blant am eu hawgrymiadau ynghylch beth fyddai'n gwneud eu bywydau'n well. Er bod costau craidd fel bwyd, tai a gwres yn bryderon amlwg i'r plant eu hunain, fe wnaethon nhw awgrymu hefyd y byddai "mwy o deithiau a gweithgareddau" yn eu helpu nhw.

Roedd yn ddiddorol gweld yn y Memorandwm Esboniadol bod rhai canolfannau o bosib eisoes yn gallu darparu cefnogaeth a chyflenwi eitemau perthnasol fel esgidiau glaw yn ôl yr angen. Does gen i ddim gwybodaeth uniongyrchol am hyn, ond mae'n dda clywed amdano. Rwy'n gobeithio y bydd y mater hwn yn cael mwy o sylw wrth i'r Bil gael ei ystyried, ac os daw'r Bil i rym, y gallai hynny achosi newid diwylliant ac y byddai arfer da yn hyn o beth yn cael ei rannu'n eang, a disgwyliad bod modd darparu ar gyfer achosion o galedi posibl a'u cefnogi.

Rwy'n ymwybodol o rai awgrymiadau y gallai'r Grant Hanfodion Ysgol gwmpasu hyn, ond hoffwn i gynghori y byddai hynny'n disgwyliad afrealistig yr arian a ddyrannwyd. Dyrannir £125 y flwyddyn i ddysgwyr (neu £200 wrth ddod i mewn i flwyddyn 7), ond dim ond i deuluoedd ar incwm isel iawn y mae hyn yn berthnasol. Er bod modd defnyddio'r arian at ddiben ehangach na'r prif eitemau gwisg ysgol yn unig, erbyn i chi gymryd i ystyriaeth holl gostau'r dibenion a ganiateir, mae'n debygol y byddai hynny'n fwy na £125 y plentyn erbyn i chi gynnwys cot ac esgidiau, holl anghenion y wisg ysgol, gweithgareddau ysgol fel offerynnau cerdd, cit ac offer chwaraeon a hanfodion eraill fel deunydd ysgrifennu a bagiau.

Dangosodd ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar Wisg Ysgol a chostau eraill mynd i'r ysgol[10] o 2019 fod "42 y cant, at ei gilydd, yn sôn am brofi rhyw lefel o anhawster ariannol wrth brynu gwisg ysgol eu plentyn". Er bod teuluoedd ag incwm teuluol o lai na £25,000 yn fwy tebygol o sôn am hyn, soniodd hyd yn oed un o bob pump o'r rhai oedd ag incwm aelwyd uwchben £25,000 am anawsterau ariannol wrth brynu gwisg ysgol eu plentyn. Mae hyn yn llawer uwch na'r trothwy cymhwysedd ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgol (sy'n gysylltiedig â chymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim).

Canfu'r gwaith ymchwil hwnnw hefyd fod "un o bob 10 o rieni heb anfon eu plentyn ar daith diwrnod gyda'r ysgol oherwydd y gost, a bod un o bob 5 heb anfon eu plentyn ar daith breswyl oherwydd y gost. Roedd tebygolrwydd hyn yn cynyddu ymhlith yr aelwydydd incwm is (ac yn arbennig ymhlith y rhai sy'n dibynnu ar fudd-daliadau fel prif ffynhonnell incwm), ond roedd yn dal yn broblem i grwpiau incwm uwch ac is."

[9] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2023/07/AmbitionsforWales_FINAL_ENG.pdf
[10] https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/100929-school-uniform-other-costs-schooling-summary-en.pdf

O ganlyniad, mae potensial sylweddol i faterion ariannol fod yn rhwystr sy'n atal plant rhag ymwneud ag addysg awyr agored breswyl os na chaiff darpariaethau'r Bil hwn eu pasio.

**Ystyriaethau ariannol i'r Bil**

Mae pawb ohonom yn boenus ymwybodol o'r pwysau ariannol sydd ar gyllidebau awdurdodau lleol ac ysgolion ar hyn o bryd. Yn y cyd-destun hwnnw, mae gofynion 'ychwanegol' pellach fel gweithgareddau a theithiau cyfoethogi yn debygol o fod yn destun craffu cynyddol o ran a ellir rhoi blaenoriaeth iddynt dros ofynion addysgol eraill. Felly mae'n teimlo mai gweithgareddau megis teithiau preswyl sy'n debygol o fod ar frig y rhestr o bethau i'w gollwng, gan y gallent yn hawdd gael eu gweld fel rhywbeth moethus.

Dyna pam rwy'n teimlo bod gwneud hyn yn hawl statudol yn bwysig, er mwyn i bob plentyn fedru cael mynediad i'r un math o gyfleoedd fel rhan o'u gyrfa ysgol.

Mae'r cwricwlwm ehangach yng Nghymru yn ymwneud â datblygu sgiliau dysgwyr ac ehangu eu gorwelion – fel eu bod yn dod yn 'unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas' a 'dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau'.

Nodir hefyd y bydd gwneud gweithgareddau o'r fath yn rhan o'r cwricwlwm yn sicrhau na chodir tâl ar rieni i'w plentyn eu mynychu; mae deddfwriaeth bresennol yn atal codi tâl am weithgareddau sy'n rhan o'r cwricwlwm, yn ystod y diwrnod ysgol neu'r tymor. Dyma ffactor arall sy'n cyfiawnhau gwneud hon yn elfen orfodol o'r cwricwlwm, ond wrth gwrs mae'n galw am ddarpariaethau o fewn y Bil i sicrhau bod ysgolion yn cael eu hariannu'n briodol i fedru cyflwyno'r gweithgareddau cwricwlwm hyn.

**Beth yw pwysigrwydd y math hwn o weithgaredd i ddatblygiad plentyn?**

Mae fy swyddfa yn cynnal cynllun hawliau plant dwyieithog, mynediad di-dâl, o'r enw Llysgenhadon, sy'n gweithredu gydag ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru[11]. Y tymor diwethaf, buon ni mewn cysylltiad â nifer o ysgolion ynghylch y Dull Gweithredu Ysgol Gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol. Cynhalion ni weithgareddau wedi'u targedu ym Môn a Blaenau Gwent (ardaloedd lle bu llai o ysgolion yn rhan o'r cynlluniau gynt), a buon ni'n holi'r cyfranogwyr am y pum peth mae eu hysgol yn eu gwneud orau i gefnogi llesiant a iechyd meddwl disgyblion. Ar draws y chwe ysgol fu'n cymryd rhan, cododd teithiau ysgol ym mhob un o'r grwpiau, a hefyd weithgareddau awyr agored (fel y filltir ddyddiol). Rhestrodd disgyblion fanteision y rhain fel a ganlyn:

- Helpu i wneud ffrindiau newydd
- Dysgu mewn ffyrdd newydd, ymarferol
- Ein helpu i ddewis ein dyfodol academaidd
- Cyfle i gael awyr iach a chyfle i mi ystyried fy iechyd meddwl
- Egwyl o'r ysgol
- Fy helpu i wneud pethau'n annibynnol
- Pawb yn ffit ac yn iach
- Bod yn yr awyr agored

[11] https://www.childcomwales.org.uk/our-schemes/

- Mae'n gwneud i ni deimlo wedi ymlacio
- Ein cadw ni'n iach er mwyn i ni fedru cynnal ein hiechyd
- Gwneud i ni ddysgu sgiliau newydd a gweithgareddau newydd
- Help i dreulio mwy o amser gyda'n ffrindiau
- Mae teithiau ysgol yn ein helpu ni trwy gael diwrnod i ffwrdd, fel egwyl o'r ysgol
- Teithiau ysgol, fel bod myfyrwyr yn gallu anghofio am eu pryderon a chael hwyl gyda'u ffrindiau
- Rydyn ni'n mynd ar deithiau ysgol i ymlacio ein meddwl
- Ar deithiau ysgol rydyn ni'n cael cyfle i archwilio lleoedd newydd

Nodwyd bod manteision gweithgaredd awyr agored yn fwy cyffredinol, megis y cyfnod actif beunyddiol, fel a ganlyn:

- Bydd bod yn actif yn gyson yn helpu oherwydd llesiant – gall chwaraeon ac ymarfer corff gael effaith eang ar eich iechyd meddwl ac effeithio'n bositif ar sut rydych chi'n ymddwyn yng nghwmni eraill
- Y filltir ddyddiol, bydd hyn yn helpu achos rydych chi'n gwneud ymarfer corff ac yn cael awyr iach, edrych ar yr olygfa werdd
- Dôs dyddiol, bydd hyn yn helpu trwy helpu ein llesiant
- Gwersi Addysg Gorfforol, bydd hyn yn helpu oherwydd byddwn ni yn yr awyr iach ac yn fwy ffit a iach
- Y Filltir Ddyddiol, bydd hyn yn helpu oherwydd byddwch chi'n cael ymarfer corff.

Ar ben hyn, mae ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar[12] wedi amlygu pwysigrwydd mannau gwyrdd i ddatblygiad corfforol plant, yn benodol dwysedd mwynol uwch yn yr esgyrn. Canfu gwyddonwyr fod gan blant sy'n byw mewn mannau lle mae 20-25% yn fwy o ardaloedd naturiol esgyrn cryfach oedd yn cyfateb i hanner blwyddyn o dwf naturiol. Ar ben hynny, roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng ardaloedd â 'mwy o le gwyrdd' (coed ac ardaloedd coediog) o fewn cylch 1000-m o'r cartref a llai o gyfle y byddai dwysedd esgyrn yn isel.

Canfu ymchwil flaenorol fod mwy o fynediad i fannau gwyrdd yn cynyddu gweithgarwch corfforol plant. Mae astudiaethau hefyd wedi nodi manteision lluosog o ran datblygiad plant, gan gynnwys llai o risg o fod dros bwysau, pwysedd gwaed is, IQ uwch, a llesiant meddyliol ac emosiynol gwell.

Os nad yw plant yn byw'n agos at fannau gwyrdd, mae'r gallu i gael mynediad at addysg awyr agored, felly, yn hanfodol i helpu i gynnal eu hiechyd a'u datblygiad, ond bydd yn agwedd bwysig ar ddatblygiad pob plentyn.

Ar nodyn cysylltiedig, hoffwn annog y Pwyllgor i ystyried y pwynt penodol hwn yn ofalus, beth bynnag fydd canlyniad proses y Bil hwn, gan fod rhai anghydraddoldebau yn amlwg yn effeithio ar iechyd a datblygiad plant ar hyn o bryd, yn ôl ble maen nhw'n byw. Dylid ystyried hynny'n fanwl gyda Llywodraeth Cymru i ddeall sut bydd hynny'n llywio ac yn newid eu rheolau a'u gofynion cynllunio wrth symud ymlaen.

[12] https://jamanetwork.com/journals/jamanetworkopen/fullarticle/2813603

**Manteision addysg awyr agored breswyl**

Gall cael mynediad i'r ymweliadau hyn fel rhan o addysg plentyn fod o fantais aruthrol i'r rhai sy'n dod o deuluoedd incwm isel yn arbennig, na fyddent fel arall fwy na thebyg yn gallu fforddio cyfle i blentyn neu blant gymryd rhan mewn gweithgareddau fel canŵio neu ddringo creigiau, neu hyd yn oed ymuno ag unrhyw glybiau allgyrsiol.

Yn adroddiad sbotolau ein swyddfa ar fynediad plant at chwarae a hamdden (erthygl 31 o CCUHP)[13] teimlai plant a phobl ifanc ag anabledd yn aml mai'r ysgol oedd yn cynnig y nifer mwyaf o gyfleoedd iddyn nhw, er eu bod yn amlwg yn gwerthfawrogi'r cyfle i fod yn rhan o glybiau a grwpiau gweithgaredd y tu allan i'r ysgol. Fodd bynnag, amlygodd nifer o ymatebwyr fod gweithgareddau, o glybiau chwaraeon a chelf i weithgareddau hamdden achlysurol fel mynd i'r sinema, i gyd yn ddrud. Nododd un ymatebwr "i arddegwyr, mae'r gweithgareddau yma yn aml yn rhy ddrud, sy'n ein rhwystro rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau". Roedd hyn yn 2018, felly cyn y pwysau ychwanegol yn sgîl costau byw ar hyn o bryd.

Yn ein hadroddiad ar dlodi plant yn 2019, Siarter ar gyfer Newid[14], trafododd llawer o rieni a gofalwyr y buon ni'n siarad â nhw bwysau a phryderon ariannol. Crynhodd un rhiant hyn trwy ddweud "nid byw, dim ond bodoli". Soniodd cyfranogwyr mewn clwb rhieni ysgol yn Ne Cymru hefyd am gostau'n cael effaith ar eu gallu i wella ansawdd bywyd eu plant, eu teimladau hwythau o euogrwydd eu bod yn methu mynd â'u plant allan ar deithiau os oedd hynny'n costio, ac effaith hynny ar eu hiechyd meddwl hwythau, eu llesiant a'u hunan-barch.

Gwelir o'r Memorandwm Esboniadol y nodir bod disgwyl i addysg awyr agored fod o fudd i'r rhai sy'n cael trafferth rheoli eu hymddygiad yn y dosbarth. Dyma pam rwy'n teimlo'n arbennig y dylai'r rhai sy'n cael mynediad i EOTAS gael eu cynnwys yn y cynnig. Wrth i ysgolion/golegau a gweithwyr proffesiynol sôn mwyfwy bod disgyblion yn cael trafferth setlo a/neu aros yn y dosbarth wedi cythrwfl Covid, mae'n teimlo'n bwysig y dylai pob plentyn gael cyfle i brofi addysg awyr agored breswyl. Y gobaith yw y bydd cael egwyl o'r dosbarth yn eu helpu i 'ailosod' wrth ddychwelyd i amgylchedd y dosbarth, gan deimlo eu bod wedi'u hadnewyddu ac yn barod i barhau i ddysgu yn y cyd-destun mwy traddodiadol.

Mae'n bosib iawn hefyd, ar ôl bod allan i fwynhau ymweliad awyr agored preswyl gyda'r ysgol, y bydd athrawon a staff hefyd yn cael eu hysbrydoli i ymgorffori elfennau o addysg awyr agored yn ôl ar safle'r ysgol neu yn y gymuned ysgol ehangach. Byddai i'w groesawu petai ysgolion yn ymgynghori â disgyblion ar hyn, ac yn eu cynnwys wrth gynllunio gweithgareddau newydd neu fannau i ymweld â nhw yn ystod y diwrnod ysgol at ddibenion addysg awyr agored. Bydd hyn yn parhau gallu disgyblion i fod â chysylltiad â'u hymdeimlad o le a'r amgylchedd naturiol o'u hamgylch. Gan fod rhieni'n pryderu am eu gallu i gefnogi plant i gael mynediad i glybiau a theithiau diwrnod yn yr ardal, byddai hynny'n helpu ysgolion i ymgysylltu â disgyblion a'u hysbrydoli i archwilio'u hardal leol, eto fel rhan o'r cwricwlwm ysgol diwygiedig.

Mae potensial hefyd i addysg awyr agored breswyl ddarparu mwy o gysylltiad â'r iaith Gymraeg i ddisgyblion. Byddai hynny'n cefnogi nod y Llywodraeth o sicrhau miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Ar ben hynny, mae nifer o strategaethau neu bolisïau eraill gan y Llywodraeth a fyddai'n cael eu cefnogi'n gadarnhaol gan ddarpariaethau'r Bil. Mae'r rhain yn cynnwys strategaeth Pwysau Iach

[13] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/04/Play-FINAL.pdf
[14] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/A-Charter-for-Change-Protecting-Welsh-Children-from-the-Impact-of-Poverty.pdf

Cymru Iach, ymdrechion i hybu a chynnal cyfiawnder cymdeithasol ledled Cymru, yn ogystal â'r strategaeth iechyd meddwl ddiwygiedig a'r strategaeth tlodi plant sydd i'w cyhoeddi'n fuan.

**Ddylai'r cynnig fod ar gael am ddim i bawb?**

Anhawster pennu trothwy cymhwysedd mewn achos o'r math yma yw'r wasgfa byddai hynny'n ei hachosi i'r teuluoedd sydd ryw fymryn uwchben y trothwy yn arbennig. Mae hynny i'w weld yn amlwg gyda'r trothwy cymhwysedd isel iawn ar gyfer prydau ysgol am ddim (sy'n gysylltiedig â chymhwysedd ar gyfer arian grantiau eraill hefyd), lle bydd effaith costau bwyd, gwisg ysgol a llawer o gostau eraill yn ergyd galed, heb sôn am yr holl bwysau arall yn sgîl costau byw ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd mae'r bar hwnnw'n llawer rhy isel, ac mae fy swyddfa a minnau wedi galw droeon am ei adolygu. Ni fyddwn yn cefnogi defnyddio'r trothwy hwn ar gyfer cymhwysedd o'r math yma, gan y bydd yn gwneud y bwlch rhwng y rhai sy'n medru a'r rhai nad ydynt yn fwy amlwg, h.y. y rhai sydd eisoes yn gallu fforddio mynd ar deithiau diwrnod neu ymuno â chlybiau neu grwpiau chwaraeon eraill a'r rhai sy'n methu fforddio cyrchu unrhyw weithgareddau o'r fath.

Byddwn hefyd yn pryderu ynghylch yr effaith bosibl ar y teuluoedd hynny â nifer o blant. Yn achos y rhai sy'n derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth, rwyf hefyd yn pryderu ynghylch effaith terfyn dau blentyn Llywodraeth San Steffan a'r cap ar fudd-daliadau. Mae'r Grŵp Gweithredu ynghylch Tlodi Plant (CPAG) wedi cyhoeddi ymchwil ar y pwysau ariannol ar deuluoedd mwy o faint[15], gan nodi nad yw'r polisi wedi cyflawni'r nod arfaethedig o ostwng cyfraddau geni, ond ei fod serch hynny wedi cael effaith sylweddol ar lesiant plant mewn teuluoedd mwy.

**Diwallu anghenion pob plentyn**

Mae dogfennau'r Bil yn amlygu na fyddai mynychu cwrs o addysg awyr agored breswyl a gynigid yn orfodol. Amlygir pobl sy'n ymdopi â gorbryder (yn rhieni a phlant) fel rhai na fyddent o reidrwydd am fynychu cwrs preswyl, ond gallant hefyd fod yn union y rhai a fydd yn elwa'n sylweddol o'r cynnig. Mae'r tystiolaeth yn amlygu'n gryf yr effeithiau cadarnhaol ar iechyd meddwl a llesiant, felly nid yw hyn yn cyd-fynd yn gyfforddus â rhagdybiaeth na fydd y rhai â phryder yn mynychu. Mewn geiriau eraill, mae'r modd y mynegir y peth ar hyn o bryd bron yn awgrymu wrth y bobl hynny, neu'n peri iddyn nhw feddwl nad yw'n addas iddyn nhw. Yn lle hynny, byddwn i'n eich annog i ystyried sut gall darparwyr cyrsiau roi gyhoeddusrwydd i'r hyn sydd ganddyn nhw i'w gynnig, trwy wybodaeth ar-lein, teithiau fideo 360 gradd ac ati, a chynnig ymweliadau â'r lleoliad i unrhyw un sydd am ddeall mwy am y ddarpariaeth. Trwy ddefnyddio'r dechnoleg bresennol, mae hefyd ddulliau cadarn o gadw mewn cysylltiad â rhieni a gofalwyr ar hyd ymweliadau, felly y gobaith yw y gellir lleddfu pryderon ynghylch sut gallai plant fod yn ymdopi ag ymweliad trwy drefniadau cyfathrebu cryfach.

Rwy'n nodi pryderon mewn rhai mannau yn y dystiolaeth ynghylch gallu darparwyr presennol i ddiwallu ac ymateb i holl anghenion plant ar hyn o bryd, gan gynnwys er enghraifft y rhai sydd ag anableddau neu anghenion ychwanegol. Disgyblion mewn ysgolion arbennig, er enghraifft, yw'r lleiaf tebygol o fod yn cyrchu cyfleoedd i gael addysg awyr agored breswyl yn awr.

Hoffwn obeithio y bydd dyfodiad Bil fel hwn yn sbarduno gwelliannau yn y sector er mwyn diwallu anghenion plant. Ar ben hynny, bydd buddsoddiad yn y sector yn dilyn ymlaen o'r Bil yn ffurf y drafft

[15] https://cpag.org.uk/policy-and-campaigns/briefing/has-two-child-limit-affected-how-many-children-families-have

presennol, felly mae hynny'n rhoi cyfiawnhad i ehangu'r ddarpariaeth a sgiliau a hyfforddiant darparwyr.

Bydd y buddsoddiad yn y sector hefyd yn dod â manteision economaidd posibl, a fydd, gobeithio, hefyd yn annog darparwyr newydd i agor a gweithredu darpariaeth yma i ddiwallu anghenion.

Os nad yw hynny eisoes ar waith, byddwn yn argymell yn gryf y gallai'r trefniadau/disgwyliadau contractiol ar gyfer cynnig darpariaeth i ysgolion o dan y Bil hwn ofyn i ddarparwyr ystyried sut maen nhw'n hybu cysylltiadau iaith a diwylliant a/neu ffactorau amgylcheddol/sero net trwy eu model busnes.

**Unrhyw bwyntiau eraill i'w hystyried**

Diogelu

Cynigiodd y diweddar Steffan Lewis AS yn flaenorol Fil Diogelwch ar Deithiau Addysgol, yn fil preifat i'r aelodau ym mhleidlais 2017. Byddai'r Bil hwn wedi cyflwyno mecanwaith ar gyfer cynnal adolygiadau annibynnol yn dilyn anaf neu farwolaeth yn ystod taith, ond hefyd byddai cod ymddygiad ar gyfer staff goruchwylio yn ystod teithiau, gan gynnwys gwaharddiad ar ddefnyddio alcohol, a chanllawiau ar gyfer yr wybodaeth mae'n rhaid ei darparu i rieni a gwarcheidwaid cyn cynnal taith. Y symbyliad ar gyfer y bil hwn oedd marwolaeth drasig un o etholwyr Mr Lewis AS, wedi iddo gwympo ar daith i Sbaen gyda'r coleg. Ymhlith pethau eraill, nid oedd disgwyl na gofyn bod staff y coleg yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored (OEAP)[16]. Byddai'r Bil wedi cyflwyno hyn fel rhywbeth i'w ddisgwyl gan ddarparwyr addysg oedd yn mynd ar daith. Mae pryder rhieni yn ffactor a godir yn nogfennau'r Bil, ac rwy'n credu y byddai gofyniad i gydymffurfio â'r canllawiau hyn (sy'n rhai cynghorol ar hyn o bryd) nid yn unig yn diogelu disgyblion ar yr ymweliadau hyn, ond hefyd yn rhoi sicrwydd i rieni a gofalwyr ynghylch sut bydd teithiau'n cael eu rheoli a'u cefnogi. Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo canllawiau'r OEAP, ond mae'r Bil hwn yn gyfle i'w hymgorffori a'u gwneud yn ofynnol. Hoffwn eich annog i ystyried newid y Bil er mwyn gwneud hynny. Byddai fy swyddfa'n barod i roi cyngor pellach neu i drafod y pwynt hwn.

Asesiad effaith ar hawliau plant

Hoffwn hefyd gydnabod a chymeradwyo'r asesiad cadarn a chlir o'r effaith ar hawliau plant (CRIA) sy'n cyd-fynd â'r Bil (fel rhan o'r memorandwm Esboniadol).

Er y dylwn gydnabod bod Sam Rowlands AS wedi defnyddio templed fy swyddfa i yn ganllaw ar gyfer ei CRIA, mae'r modd y cyflwynwyd gwybodaeth i lenwi'r templed hwnnw yn ardderchog.

Mae'r CRIA yn cynnwys ystyriaeth benodol o erthyglau a hawliau unigol, nid dim ond y rhai amlwg fel mynediad at addysg, ond hefyd cefnogaeth i'r safonau iechyd gorau, a defnyddio darpariaethau ariannu'r Llywodraeth i gefnogi teuluoedd a phlant yn uniongyrchol i gael mynediad i'w hawliau.

Mae hefyd yn cynnwys ystyriaeth agored o'r effaith wahaniaethol bosibl ar rai grwpiau o blant ac yn ystyried sut gellid lliniaru unrhyw effeithiau negyddol. Mae cyfeiriadau at ymchwil a gyhoeddwyd ac ymgynghoriad penodol o faint boddhaol gyda phlant a phobl ifanc ynghylch manylion y Bil wedi bwydo'n uniongyrchol i ffurf derfynol darpariaethau'r Bil, gydag atebolrwydd i'r rhai a fu'n cynnig eu barn yn y broses ymgynghori.

[16] https://oeapng.info/about-national-guidance/

Hoffwn dynnu sylw'n arbennig at y dulliau cyfranogi hwylus i blant a ddefnyddiwyd i gasglu eu barn, gan gynnwys cartŵn/animeiddiad yn esbonio'r Bil, a gêm 'nadroedd ac ysgolion' i helpu i gasglu barn plant mewn modd difyr, hygyrch oedd yn ennyn eu diddordeb.

Un fantais glir i'r dull cadarn hwn o gyflawni'r CRIA yw ei fod yn amlygu'r pwynt cryf mai'r rhai a fyddai'n elwa fwyaf o'r Bil yw'r rhai sydd o dan anfantais yn y system bresennol, ac yn fy marn i mae hynny'n creu achos cryf o blaid symud ymlaen gyda'r Bil hwn.

Rocio Cifuentes MBE

Comisiynydd Plant Cymru